SKSG2

Cael a dychwelyd offer grip

Trosolwg

Mae'r Safon hwn yn ymwneud â gallu dewis a chael gafael ar offer, deunyddiau a nwyddau traul grip addas.

Mae'n ymwneud â dethol yr offer cywir ar gyfer cyfnod saethu penodol, ei wirio pan fydd yn cael ei gyflenwi, sicrhau ei fod yn perfformio yn ôl y disgwyl, delio ag unrhyw broblemau a'i ddychwelyd at y cyflenwyr pan na fydd mo'i angen mwyach. Bydd angen i chi ddilyn holl reoliadau diogelwch ac arferion gweithio'r diwydiant wrth gaffael a dychwelyd yr offer.

Mae'r Safon hwn ar gyfer unrhyw un sy'n ymwneud â chael a dychwelyd offer grip.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1 Dewis offer sy'n addas ar gyfer y cynhyrchiad

2 Dewis deunyddiau neu nwyddau traul sy'n cwrdd â'r gofynion grip

3 Dewis offer a deunyddiau sydd o fewn y gyllideb

4 Sicrhau fod pob offer yn cael ei ddefnyddio o fewn i'w gyfyngiadau dylunio drwy gydol y cynyrchiadau

5 Rhagweld a gweithredu i ddelio ag unrhyw broblemau gyda'r offer er mwyn peidio â pheri oedi i'r cynhyrchiad

6 Gwirio fod pob offer yn perfformio yn ôl y safon angenrheidiol

7 Cofnodi manylion pob tystysgrif diogelwch angenrheidiol mewn fformatau sy'n ofynnol ar gyfer y cynhyrchiad

8 Sicrhau fod gweithdrefnau yn eu lle i ddychwelyd yr offer i'r cyflenwyr yn ddiogel ac yn gyfan

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1 Deddfwriaeth berthnasol, canllawiau ac arfer orau'r diwydiant

2 Y paramedrau ar gyfer awgrymu mathau o offer grip sy'n addas i'r lleoliad

3 Dulliau trin â llaw ar gyfer rigio

4 Rheoliadau Iechyd a Diogelwch addas sy'n berthnasol, a phryd i'w gorfodi.

5 Terfynau eich arbenigedd a phryd i geisio cyngor

6 Defnyddio offer trydanol yn ddiogel a ffynonellau cyngor arbenigol

7 Manteisio gwaith tîm a sut i gyfathrebu ag eraill

8 Offer sydd ei angen ar gyfer gweithgaredd grip gan gynnwys unrhyw offer diogelwch

9 Atebolrwydd y cynhyrchiad o ran llogi offer trydydd parti

10 Eich cyfrifoldebau o dan gytundebau llogi trydydd parti

11 Pa offer sydd angen tystysgrifau diogelwch a sut i storio gwybodaeth amdanynt

12 Gweithdrefnau i sicrhau dychwelyd offer yn ddiogel at gyflenwyr

13 Problemau a allai effeithio ar offer trydanol

14 Arferion gweithio diogel pan fyddwch yn gweithio ger ceblau uwchben a llinellau pŵer trydan

SKSG2

Cael a dychwelyd offer grip

Datblygwyd gan	Creative Skillset
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2018
Indicative Review Date	Mawrth 2022
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Screen Skills (gynt Creative Skillset)
RCU gwreiddiol	SKSG2
Galwedigaethau perthnasol	Technegydd Craen (Ffilm a theledu); Gweithredwr Craen (Ffilm a theledu); Grip; Grip dan hyfforddiant
Cyfres/Set	Grips a thechnegwyr craeniau
Geiriau Allweddol	Llogi, iechyd a diogelwch, Grip, Offer